# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 09 Mawrth, 2023
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Catherine Hughes
Nia W. Jones
Rhys Jones
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Nerys Williams - Clerc

1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Wynne Davies

Y Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

2. Cofnodion cyfarfod 09 Chwefror, 2023

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 09 Chwefror, 2023 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

***Materion Priffyrdd*** –

***Arwydd Plant yn Chwarae*** – Adran Draffig wedi cysylltu yn gofyn am wybod yn union ble oedd angen yr arwyddion hyn a bod rhaid cael cae chwarae er mwyn cael cyfiawnhad o gael arwydd o'r fath. Y Clerc wedi ateb yn cadarnhau bod y cae chwarae ger Meithrinfa Blagur / Tai Tre'r Ddôl.

Yn codi o gofnodion Ionawr 2023 ***– Parcio ger Meithrinfa Blagur*** – Andrew Gregson o'r Adran Draffic wedi cysylltu yn gofyn am fanylion cyswllt y Feithrinfa – wedi anfon y wybodaeth ato.

4. **Materion Cynllunio**

Doedd dim materion Cynllunio i'w trafod.

5. **Unrhyw un yn datgan diddordeb**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

6. **Ymatebion i ohebiaeth**

DIM

7. **Tendrau am dorri gwellt a chlirio mynwentydd**

Mi oedd copi o wahoddiad i dendro ar gyfer edrych ar ôl Mynwentydd Llanfihangel ac Eglwys Boduan ynghyd â Cae Chwarae Rhydyclafdy wedi eu gosod i fyny ar yr hysbysfyrddau yn Rhydyclafdy ac yng Ngheidio gan wahodd unrhyw un oedd â diddordeb yn y gwaith i yrru prisiau i mewn i'r Clerc erbyn hanner dydd, Dydd Mercher, 8 Mawrth, 2023.

Derbyniwyd 1 tendr yn unig ac fe'i agorwyd yn y cyfarfod. Penderfynwyd bod tendr S. Arnott ac F. Jones yn dderbyniol. Y Clerc i gysylltu â'r cwmni i gadarnhau hyn.

8. Materion Ariannol

Cysoniad banc o 3 Chwefror, 2023 i 2 Mawrth, 2023 heb gyrraedd erbyn y cyfarfod heno. Y Clerc i anfon copi ar e-bost i'r Cynghorwyr cyn gynted ag y'i derbynnir.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Bacstal (Hyd at 31.12.2022) | £134.10 | Siec Rhif 200710 |
| Bartle St. Tudwals (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200711 |
| Cyllid a Thollau (Mis 12) | £28.00 | Siec Rhif 200712 |
| Nerys Williams (Mis 12) | £111.79 | Siec Rhif 200713 |
| Archwilio Cymru | £486.00 | Siec Rhif 200714 |
| Un Llais Cymru (Tâl Aelodaeth 2023/2024) | £87.00 | Siec Rhif 200715 |

Cafwyd cais am gyfraniad ariannol gan McMillan; Cantorion Llŷn a Beic i Hafod Lon a phenderfynwyd trafod y cwbl mis nesaf. Hefyd penderfynwyd anfon at Glwb Godre'r Eifl i ofyn iddynt ail gyflwyno cais.

Adroddwyd nad oedd arian Fferm Solar Nefyn wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Y Clerc i anfon at Lightsource i ofyn beth yw'r sefyllfa ynglŷn â'r taliad blynyddol sydd yn ddyledus.

Mynwent Boduan – Y Clerc i anfon at Lord Newborough i ofyn os yw yn bosib iddo weld ei ffordd yn glir eto eleni i roi cyfraniad at gynnal a chadw Mynwent Boduan.

**9. Unrhyw fater arall**

***Materion Priffyrdd*** -

Adroddwyd nad oes llinellau gwyn ar y ffordd o Boduan i Fryn Cynan (A497) a bod yr arwyddion yn nodi hyn wedi cael eu gosod mewn llefydd peryglus iawn. Hefyd nid oes llygadau cath ar y briffordd a bod hyn yn annerbyniol ar ffordd mor brysur – anfon eto i'r adran berthnasol yn gofyn am sylw buan.

Adroddwyd fod pryderon o or-yrru difrifol ar y ffordd o Bodfel, Efailnewydd tuag ag Bryn Cynan – er bod arwyddion 50 milltir yr awr yn bodoli nid oes llawer yn cymryd sylw ohonynt. Penderfynwyd gyrru at Gam Bwyll i ofyn iddynt roi sylw i'n pryderon.

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 13 Ebrill, 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.